Clampio olwynion ar dir preifat

Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymwneud â rheolau ynglŷn â chlampio olwynion cerbydau sy'n cael eu parcio ar dir preifat.

Mae yna reolau gwahanol ar gyfer cerbydau sy'n cael eu parcio ar ffyrdd cyhoeddus, sy ddim yn cael sylw yma.

Defnyddio cwmnïau trwyddedig sy'n clampio olwynion

Mae'n rhaid i gwmnïau clampio olwynion sy'n codi tâl rhyddhau gael trwydded oddi wrth yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) os ydynt yn gweithio ar dir preifat. Mae'n drosedd i unrhyw un heb drwydded i glampio eich cerbyd a chodi tâl rhyddhau. Mae hefyd yn drosedd i rywun gyflogi cwmni clampio olwynion sydd heb drwydded, neu i berchennog tir i ganiatáu cwmni clampio olwynion y maen nhw'n gwybod sydd heb drwydded i weithredu ar eu tir.

Pan fyddwch chi'n talu am gael rhyddhau eich cerbyd, rhaid i'r cwmni clampio olwynion ddarparu derbynneb sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- y man lle cafodd y cerbyd ei glampio
- eu henw a'u llofnod
- eu rhif trwydded SIA (rhif 15 digid ar flaen eu trwydded)
- y dyddiad.

Dylai cwmnïau clampio olwynion trwyddedig hefyd wisgo eu trwydded SIA er mwyn i chi ei weld bob amser pan fyddan nhw'n gweithio. Fe allwch chi wirio os oes gan rhywun drwydded SIA ddilys trwy edrych ar gofrestr gyhoeddus o drwyddedau ar wefan SIA yn www.the-sia.org.uk, neu oddi wrth ganolfan alw'r SIA ar 08702 430 100.

Pryd y gellir clampio eich cerbyd

Os ydych chi'n parcio ar dir preifat heb ganiatâd y perchennog, fe allan nhw glampio eich cerbyd yn gyfreithlon. Sut bynnag, fe allan nhw wneud hyn o dan rai amodau arbennig yn unig.

Dyma i chi rai enghreifftiau o pryd y gellir clampio eich cerbyd ar dir preifat:

- pan fyddwch chi wedi parcio mewn maes parcio ar gadw i gwsmeriaid tafarn a chwithau ddim yn gwsmer
- pan fyddwch chi wedi parcio mewn maes parcio sy'n perthyn i floc o fflatiau, a chwithau ddim yn byw yno
- pan fyddwch chi wedi parcio mewn maes parcio ar gadw i weithwyr cwmni arbennig, a chwithau ddim yn gweithio i'r cwmni hwnnw
- pan fyddwch chi wedi aros dros amser mewn maes parcio talu
- pan fyddwch chi wedi methu arddangos tocyn neu drwydded caniatad yn gywir, neu dim un o gwbl
- pan fyddwch chi wedi parcio dros ddau le gwag yn lle un
- os ydych chi wedi parcio'n beryglus, neu wedi blocio mynediad argyfwng.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Er mwyn clampio eich cerbyd yn gyfreithlon rhaid:

- bod yna hysbysiadau i'w gweld yn glir, yn eich rhybuddio y caiff cerbydau heb awdurdod eu clampio
- i'r perchennog tir beidio â chodi mwy na ffî resymol i ryddhau eich cerbyd
- i'ch cerbyd gael ei ryddhau cyn gynted ag y byddwch chi wedi talu'r ffî rhyddhau
- bod yna ffordd i chi gysylltu â'r perchennog tir (neu eu hasiant) er mwyn trefnu talu, er enghraifft rhif ffôn ar y nodyn rhybudd.

Mae'n ofyniad gan SIA na all perchennog tir glampio eich cerbyd os:

- ydyw'n arddangos bathodyn anabl dilys
- yw'n amlwg mai cerbyd argyfwng ydyw sy'n ymateb i argyfwng

Beth i'w wneud os cewch chi'ch clampio

Os cewch eich clampio:

- cadwch yn dawel, peidiwch â cholli'ch tymer neu fentro i symud y clamp ar yr olwyn - fe allech chi gael eich erlyn am ddifrod troseddol os difrodwch chi'r clamp ar yr olwyn. Fe allech chi hefyd gael eich erlyn am ddwyn os cadwch chi'r clamp.
- cysylltwch â'r rhif ffôn a ddangosir a gofynnwch am gael rhyddhau'r cerbyd
- gwiriwch os yw'r arwyddion rhybudd a'r ffiniau yn ddigon clir. Fe allech chi hefyd dynnu llun i'w ddefnyddio fel tystiolaeth yn ddiweddarach
- gofynnwch i'r cwmni clampio olwyn i bwy maen nhw'n gweithio, a ellir cyflwyno awdurdod y perchennog tir.
- mae gennych chi'r hawl fel modurwr sydd wedi'i glampio i weld eu trwydded SIA os ydynt yn gofyn am ffi rhyddhau
- os ydych chi'n credu fod y cwmni clampio olwynion yn ddidrwydded, peidiwch â thalu'r ffi rhyddhau. Os fyddan nhw'n gwrthod rhyddhau eich cerbyd heb ffi, ffoniwch yr heddlu. Mae cwmni clampio olwynion didrwydded sy'n gofyn am ffi yn troseddu. Rhowch wybod i'r SIA am unrhyw gwmnïau clampio olwynion didrwydded.
- os ydyw'r cwmni clampio olwynion yn ymddwyn yn fygythiol neu'n ddigon i godi ofn arnoch fe ddylech chi roi gwybod am hyn i'r heddlu
- os oes gan y cwmni clampio olwynion drwydded, bydd yn rhaid i chi dalu'r ffi rhyddhau, ond mynnwch gael derbynneb. Ceisiwch gael y cyfeiriad a'r rhif ffôn lle gellir cysylltu â'r cwmni clampio olwynion
- os ydych chi'n teimlo na ddylid fod wedi'ch clampio, er enghraifft oherwydd nad oedd y rhybuddion yn ddigonol, neu fod y ffi rhyddhau yn rhy uchel, yr unig ffordd i gael eich arian yn ôl yw trwy'r llysoedd. Gall cyfreithiwr eich cynghori faint o obaith fydd gennych i ennill eich achos.

Cludo ymaith

Efallai y bydd yn angenrheidiol i gludo ymaith unrhyw gerbyd sydd wedi'i barcio ar dir preifat os yw:

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- wedi'i barcio'n beryglus; neu
- yn achosi rhwystr; neu
- yn blocio mynedfa argyfwng.

Os caiff eich cerbyd ei gludo ymaith o dir preifat:

- edrychwch am unrhyw rybuddion sy'n rhoi manylion cyswllt perchnogion neu reolwyr y safle
- cysylltwch â'r swyddfa heddlu lleol - fe ddylid eu hysbysu hwy pan fydd cerbyd wedi cael ei symud (peidiwch â ffonio 999 sut bynnag!)
- bydd yn rhaid i chi dalu er mwyn rhyddhau eich cerbyd, ond efallai y byddwch chi am gael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n cludo cerbydau ymaith ac sy'n codi tâl amdano gael trwydded gan yr SIA. Dylech hysbysu'r SIA (gweler uchod) os nad oes ganddynt drwydded.

Cymdeithas Parcio Prydain (British Parking Association)

Fe allwch chi hefyd edrych ar wefan y *British Parking Association* sy'n gweithredu fel cymdeithas fasnach i gwmnïau sy'n cyflawni gweithgareddau gorfodi parcio ar dir preifat. Rhaid i aelodau'r gymdeithas gydymffurfio â Chod Ymarfer ar glampio olwynion a symud cerbydau. Fe allwch chi ddod o hyd i'r Cod Ymarfer ar y wefan yn www.britishparking.co.uk

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dirwyon parcio
- Hawliadau bychain
- Defnyddio cyfreithiwr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 23 Mehefin 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr